

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(STRYD RHOSMAEN, LLANDEILO, SIR
GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU
DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Llandeilo, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A483 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (rhwng 19:00 o'r gloch ar 16 Hydref 2023 a 06:00 o'r gloch ar 17 Hydref 2023) neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://www.llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://www.llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

**Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau
Eraill**

Y darn o gefnffordd yr A483 o'r enw Stryd Rhosmaen yn Llandeilo yn Sir Gaerfyrddin sy'n dechrau o ganolbwynt ei chyffordd ag Adeiladau'r Banc hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Stryd Caerfyrddin.

**THE A483 TRUNK ROAD (RHOSMAEN
STREET, LLANDEILO, CARMARTHENSHIRE)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Llandeilo in the County of Carmarthenshire.


The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than vehicles being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A483 specified in the Schedule to this Notice. The alternative route is also described in the Schedule.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, is expected to operate overnight from 19:00 hours on the 16 October 2023 to 06:00 hours on the 17 October 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

**Temporary Prohibition of Vehicles and
Alternative Routes**

The length of the A483 trunk road known as Rhosmaen Street in Llandeilo in Carmarthenshire that commences from the centre of its junction with Bank Buildings to the centre of its junction with Carmarthen Street.

The alternative route for southbound vehicles will be

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de fydd mynd ar yr A40 tua'r gorllewin i Gaerfyrddin, yna ar yr A48 tua'r gorllewin i Cross Hands, yna ar yr A476 tua'r gogledd i Ffair-fach i ailymuno â'r A483 i'r de o'r ffordd sydd ar gau. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

via the westbound A40 to Carmarthen, then westbound on the A48 to Cross Hands, then northbound on the A476 to Ffairfach to rejoin the A483 south of the closure. The alternative route for northbound vehicles will be vice versa.